OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 233 (Cy.45)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*5 Chwefror 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Chwefror 2011*
Yn dod i rym - -	*1 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(2), 17(1) a (2), 26(1)(a) a (2)(a) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop, ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd wrth baratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2011, a deuant i rym ar 1 Mawrth 2011.

(**1**) 1990 p.16. Cafodd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") ei disodli gan O.S. 2004/2990. Cafodd adrannau 17 a 48 eu diwygio gan baragraffau 12 a 21, yn ôl eu trefn, o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Cafodd adran 48 ei diwygio'n ogystal gan O.S. 2004/2990. Cafodd adran 53(2) ei diwygio gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoli a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999, O.S. 2004/2990, ac O.S. 2004/3279.

(**2**) Mae swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, o ran Cymru a Lloegr a chan weithredu ar y cyd, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol, a oedd yn ôl eu trefn, yn ymwneud ag iechyd yn Lloegr a bwyd ac iechyd yng Nghymru, ac, o ran yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol) bellach yn arferadwy o ran Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Cafodd swyddogaethau "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a chawsant eu trosglwyddo ar ôl hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006.p.32). Cafodd y swyddogaethau hynny, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran yr Alban, eu trosglwyddo i Weinidogion yr Alban gan adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 (1998 p.46) fel y'i darllenir gydag adran 40(2) o Ddeddf 1999.

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.Cafodd y Rheoliad hwnnw ei ddiwygio ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n addasu nifer o offerynnau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468 o ran y weithdrefn reoleiddio gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddio gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).